RISE ASSOCIATES

nmc Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adolygiad Annibynnol o Ddiwylliant Gorffennaf 2024

Mae'r adroddiad hwn yn dweud sut beth ydy gweithio yn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a sut mae'n effeithio ar y gwaith maen nhw'n ei wneud






# Beth sydd yn y llyfryn hwn


| | | |
|---|---|---|
| | **Tudalen 1** | Gwybodaeth am y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth |
|  | **Tudalen 4** | Pam oedd angen i ni gynnal adolygiad |
|  | **Tudalen 7** | Beth wnaethom ni |
|  | **Tudalen 9** | Peth mawr 1: Gwneud yn siŵr bod nyrsys a bydwragedd yn gwneud gwaith da |
|  | **Tudalen 15** | Peth mawr 2: Sut mae staff yn cael eu trin yn y gwaith |
|  | **Tudalen 18** | Peth mawr 3: Sut mae'r NMC yn cael ei redeg |
|  | **Tudalen 20** | Pethau da a glywsom ni |

# Gwybodaeth am y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth




Mae'r adroddiad hwn yn trafod y **Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**.

Yn y llyfryn hwn, byddwn ni'n eu galw'n **NMC** yn fyr.



Mae'r NMC yn gwneud yn siŵr fod pob **nyrs** a **bydwraig** yn y DU a **chymdeithion nyrsio** yn Lloegr yn ddiogel i weithio.



Mae **nyrsys** yn helpu pobl sy'n sâl, wedi'u hanafu neu angen gofal.



Mae **bydwragedd** yn helpu pobl i roi genedigaeth.



Mae **cymdeithion nyrsio** yn staff iechyd sy'n gweithio gyda nyrsys yn Lloegr.

Mae'r NMC:



- Yn gwirio bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn cael yr holl hyfforddiant sydd ei angen arnynt i wneud gwaith da iawn.




- Yn gwneud yn siŵr bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn dilyn y rheolau ar gyfer eu swyddi.



- Yn delio â **chwynion** am nyrsys, bydwragedd neu gymdeithion nyrsio.

  **Cwyn** ydy pan fyddwch yn rhoi gwybod i rywun eich bod yn anhapus am rywbeth.




- Yn cadw rhestr o'r holl nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. **Cofrestr** ydy'r enw ar y rhestr yma.




I gael swydd fel nyrs neu fydwraig yn y DU, neu fel cydymaith nyrsio yn Lloegr, rhaid i chi fod ar y gofrestr.




I fod ar y gofrestr, rhaid i chi ddangos i'r NMC eich bod yn dilyn eu holl reolau.

# Pam oedd angen i ni gynnal adolygiad



Ystyr **adolygiad** ydy edrych ar rywbeth i gael gwybod mwy amdano.



Mae rhai wedi dweud bod problemau yn y gweithle yn yr NMC.  Pethau fel bwlio a **hiliaeth**.

**Hiliaeth** ydy cael eich trin yn wael oherwydd pethau fel:




- Lliw eich croen.
- Siarad iaith wahanol.



Mae llawer o staff yn anhapus iawn. Maen nhw dan straen ac yn anfodlon iawn.



Felly mae dod i'r gwaith yn rhywbeth ofnadwy i rai pobl. Dydyn nhw ddim eisiau gweithio yma ac mae'n gwneud iddyn nhw deimlo'n wael.



Felly, dydy'r NMC ddim yn gallu gwneud ei waith yn iawn.

Efallai na fydd yn gallu cadw staff a chleifion yn ddiogel.



Mae'r NMC eisiau gwneud rhywbeth am hyn.



Mae'r NMC wedi gofyn i ni gynnal adolygiad o sut mae pobl yn teimlo am weithio yn yr NMC.

RISE ASSOCIATES



Rise Associates ydyn ni.  Rydyn ni'n sefydliad sy’n **annibynnol** ar yr NMC. Felly, dydyn ni ddim yn gweithio i’r NMC.

Cafodd y tîm adolygu ei arwain gan Nazir Afzal.
Mae Nazir yn un o gyfreithwyr gorau’r DU.



Gyda’n gilydd, fe wnaethom ni edrych ar farn staff am weithio yn yr NMC.




Ac fe wnaethom ni feddwl am syniadau am newidiadau y gallai’r NMC eu gwneud.



Bydd yr NMC yn defnyddio’r wybodaeth i geisio gwneud pethau’n well.

# Beth wnaethom ni



Fe wnaethom ni siarad â llawer o staff am weithio yn yr NMC.  Fe wnaethom ni ofyn beth oedden nhw'n ei feddwl a sut roedden nhw'n teimlo.




Fe wnaethom ni anfon arolwg ar-lein at holl staff yr NMC.




Fe wnaethom ni edrych ar farn staff am weithio yn yr NMC.



Fe wnaethom ni edrych ar wybodaeth am staff.  Pethau fel pam eu bod yn sâl o'r gwaith a pham eu bod wedi gadael eu swydd yn yr NMC.



Aethom ni i edrych o amgylch swyddfeydd yr NMC.




Roedd y staff hefyd yn gallu anfon e-bost neu lythyr atom i ddweud eu barn.



Roedd bron pob aelod o’r staff eisiau dweud eu dweud.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod yr holl staff yn gallu dweud sut maen nhw’n teimlo.




Mae’r adroddiad hwn yn dweud pa bethau mawr y cawsom ni wybod amdanynt.

# Peth mawr 1: Gwneud yn siŵr bod nyrsys a bydwragedd yn gwneud gwaith da



Os bydd yr NMC yn cael cwynion nad ydy nyrsys neu fydwragedd ddim yn gwneud gwaith da, byddan nhw'n ymchwilio i'r mater.

Maen nhw'n edrych i weld ydy'r nyrs neu'r fydwraig yn dal yn ddiogel i weithio. **Achos addasrwydd i ymarfer** ydy'r enw ar hyn.



Mae rhai cwynion yn ddifrifol iawn. Efallai na fydd y person yn ddiogel i weithio.



Dydy cwynion eraill ddim yn ddifrifol iawn o gwbl, a does dim angen gwneud dim.



Mae dros 6 mil o gwynion ar hyn o bryd.



Mae staff yr NMC yn gorfod gweithio'n galed iawn i geisio delio â'r holl gwynion.

Mae hyn yn achosi straen mawr.



Dywedodd pobl fod llawer o broblemau yn y ffordd y mae'r NMC yn delio â chwynion.

**Mae'r NMC yn cymryd gormod o amser i ddweud wrth nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio beth fyddan nhw'n ei wneud gyda'r gŵyn amdanynt**




Mae rhai nyrsys a bydwragedd yn aros am benderfyniad am 4 neu 5 mlynedd.



Mae hyn yn achosi straen mawr.



Mae'n bosibl fod rhai nyrsys sydd ddim yn ddiogel i weithio yn cael parhau i weithio nes bydd penderfyniad yn cael ei wneud.

Mae'n bosibl fod hyn yn golygu na fydd cleifion yn ddiogel.

## Mae 'achosion addasrwydd i ymarfer' yn achosi straen mawr



Dydy rhai o staff yr NMC ddim yn dangos parch tuag at nyrsys a bydwragedd sydd â chwyn yn eu herbyn.



Mae rhai nyrsys a bydwragedd yn teimlo dan straen mawr am y gŵyn yn eu herbyn.

Maen nhw'n gorfod cymryd amser o'r gwaith i ddelio â'u hiechyd meddwl.



Yn anffodus, mae rhai nyrsys wedi lladd eu hunain tra roedd yr NMC yn cynnal 'achos addasrwydd i ymarfer' yn eu herbyn.

## Mae cwynion llai difrifol yn cymryd yr un faint o amser i edrych arnynt â chwynion difrifol

Felly gallai'r canlynol fod yn wir:



- Mae rhai nyrsys sydd heb wneud dim byd o'i le yn treulio blynyddoedd yn teimlo dan straen ac yn poeni.



- Mae rhai nyrsys sy'n gwneud gwaith da yn cael gwybod bod angen iddyn nhw roi'r gorau i weithio hyd nes y bydd penderfyniad wedi cael ei wneud.

## Mae ffordd well o ddelio ag achosion addasrwydd i ymarfer



Mae rhai nyrsys yn credu y dylai mwy o nyrsys a bydwragedd helpu i edrych ar achosion addasrwydd i ymarfer.



Byddai hyn yn helpu staff i wneud y penderfyniadau gorau am y gŵyn.



Doedd rhai nyrsys ddim yn cytuno â phenderfyniadau am achosion addasrwydd i ymarfer.

Roedden nhw'n dweud nad ydy'r NMC ddim yn edrych ar adegau pan fydd nyrsys a bydwragedd yn ymddwyn yn wael y tu allan i'r gwaith. Pethau fel:



- Gwneud i bobl wneud pethau rhywiol nad ydyn nhw eisiau eu gwneud.

Neu




- Gyrru car pan fyddan nhw wedi yfed gormod o alcohol.



Felly mae'n bosibl fod rhai nyrsys neu fydwragedd sydd ddim yn ddiogel i weithio yn cael parhau i weithio.

## Dydy’r NMC ddim yn onest ac yn agored pan fydd pethau’n mynd o’i le



Dywedodd un nyrs am adeg pan oedd penderfyniad anghywir wedi cael ei wneud am gŵyn.



Felly, roedd nyrs oedd ddim yn ddiogel i weithio wedi cael parhau i weithio.

Oherwydd hyn, roedd rhai cleifion wedi cael eu hanafu.




Doedd yr NMC ddim wedi ymddiheuro nac wedi dysgu o’u camgymeriadau.

## Peth mawr 2: Sut mae staff yn cael eu trin yn y gwaith

### Hiliaeth

Dywedodd staff o grwpiau Du a lleiafrifoedd ethnig wrthym:



- Mae llawer o hiliaeth yn yr NMC. Dydy hyn ddim yn cael ei gymryd o ddifri.




- Dydy pobl o grwpiau Du a lleiafrifoedd ethnig ddim yn cael eu trin yn deg pan fyddan nhw'n gwneud cais am swyddi.



Dywedodd pobl o grwpiau Du a lleiafrifoedd ethnig hefyd fod staff yn gallu bod yn ddigywilydd a dweud pethau cas. Dydyn nhw ddim yn dweud yr un pethau wrth bobl wyn.



Oherwydd dydy staff ddim yn gwybod digon am hil, diwylliant neu gefndir pobl eraill.

## Bwlio



Weithiau pan fydd pobl yn gas, dydy eu rheolwr ddim yn gwneud dim am y mater.



Weithiau bydd pobl sy'n cael eu bwlio yn cael eu symud i swydd wahanol yn hytrach na chael eu cefnogi'n iawn.




Mae staff Du a lleiafrifoedd ethnig yn aml yn gadael yr NMC i gael swyddi gwell.  Y rheswm am hyn ydy bwlio ac ymddygiad gwael.



## Anabledd a salwch

Dywedodd staff ag anableddau neu salwch nad oedden nhw'n cael eu trin yn iawn bob amser.



Dywedodd staff ag anableddau nad oedd rheolwyr yn gwneud **addasiadau rhesymol**.




Sef pan fydd gwasanaethau'n gwneud newidiadau ar gyfer anghenion sydd gan rywun.

Pethau fel drysau llydan ar gyfer cadeiriau olwyn, neu roi gwybodaeth mewn ffordd y gall pobl ei deall.



Dywedodd pobl a oedd yn sâl iawn ond yn dal i ddod i'r gwaith nad oedden nhw'n cael eu cefnogi'n iawn.



Roedden nhw'n dweud eu bod yn cael gormod o waith i'w wneud pan oedden nhw'n sâl.



Weithiau roedd rheolwyr yn trin pobl fel pe baen nhw'n gwneud gwaith gwael, nid fel pe baen nhw'n sâl.

# Peth mawr 3: Sut mae'r NMC yn cael ei redeg



## Hyfforddiant

Mae hyfforddiant yn bwysig iawn. Mae'n helpu staff i gael y sgiliau i wneud eu gwaith yn dda.



Mae hefyd yn helpu sefydliadau i ddal ati i wella.



Dywedodd staff nad oedd hyfforddiant yn cael ei gymryd o ddifri nac yn cael ei ystyried yn bwysig.



Doedden nhw ddim yn cael cyfle i roi cynnig ar swyddi newydd neu wahanol yn y sefydliad.

## Gwerthoedd




**Gwerthoedd** ydy'r pethau y mae sefydliad yn credu ynddynt a sut maen nhw'n ymddwyn.



Dywedodd staff fod gan yr NMC werthoedd sy'n swnio'n dda. Pethau fel:

- Rydyn ni'n credu mewn gweithio gyda'n gilydd.



- Rydyn ni'n trin pobl yn garedig ac rydyn ni'n deg.




- Mae gennym ni gynlluniau mawr a syniadau i wneud ein gwaith gorau.



Ond dywedodd y staff nad ydy'r pethau hyn yn wir. Dywedon nhw nad ydy'r NMC yn gwneud y pethau hyn mewn gwirionedd.

# Pethau da a glywsom ni



Mae'n bwysig cofio bod llawer o bobl dda iawn yn gweithio yn yr NMC.



Mae llawer o staff yn gwybod beth i'w wneud os ydyn nhw'n gweld ymddygiad gwael.  Maen nhw'n gwybod sut i ddweud wrth rywun.



Mae llawer o staff yn cefnogi ei gilydd.



Dywedodd llawer o bobl fod eu rheolwr yn dda.



Mae rhai staff yn teimlo eu bod yn gallu siarad gyda'u rheolwr am unrhyw bryderon.



Mae rhai staff gwyn yn drist pan fydd hiliaeth yn digwydd i staff Du a staff o leiafrifoedd ethnig.




Ond mae llawer o staff yn flin iawn gyda'r NMC.



Maen nhw eisiau i'r NMC gywiro a gwella pethau.




Maen nhw eisiau i'r NMC wneud y pethau sydd wedi cael eu cynnwys yn eu gwerthoedd.

# Gwybodaeth am yr adroddiad hawdd ei ddeall

Easy Read UK
Paper, Online and Digital

Mae Easy Read UK wedi ein helpu i ysgrifennu'r adroddiad hawdd ei ddeall.

**www.easyreaduk.co.uk**

working together
K.I.N
Kirklees Involvement Network

Roedd Kirklees Involvement Network wedi gweithio gyda Easy Read UK a gwirio'r adroddiad hwn.



Mae'r lluniau yn yr adroddiad hwn wedi dod gan Photosymbols, Ing Image a'r NMC.

nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

**Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).**

**23 Portland Place, Llundain W1B 1PZ**
**Ff 020 7637 7181**
**www.nmc.org.uk**